

Cyngor a gweithdrefnau ar gyfer ysgolion: Ymateb i ddigwyddiadau secstio a'u rheoli

Cyd-destun

Wrth i bryderon o ran secstio gan bobl ifanc gynyddu, nod y canllaw hwn yw helpu ysgolion i nodi digwyddiadau secstio a'u rheoli'n briodol.

Mae cynhyrchu a dosbarthu delweddau secstio sy'n cynnwys unrhyw un o dan 18 oed yn anghyfreithlon ac mae angen rheoli hyn yn ofalus iawn i bawb dan sylw.



Cam 1: Ar gyfer Staff yr Ysgol

- Cewch gyngor, rhowch wybod i'ch Uwch Berson Dynodedig neu'r Pennaeth drwy'r gweithdrefnau amddiffyn plant arferol.



Cam 2: Ar gyfer yr Uwch Berson Dynodedig

- **PEIDIWCH Â CHYMRYD** y ddyfais. **PEIDIWCH** â cheisio gweld unrhyw un o'r delweddau. Ffoniwch yr Heddlu a gallant gymryd y ddyfais os bydd angen. Ffoniwch y Tîm Asesu Gofal Plant i gael cyngor.
- Ffoniwch y rhieni a'u hysbysu am y digwyddiad a'r camau gweithredu. Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf i rieni.



Cadwch gofnod o bob achos o secstio gan gynnwys y camau gweithredu a gymerwyd yn ogystal â'r camau gweithredu hynny nas cymerwyd a rhowch gyfiawnhad. Wrth farnu pob digwyddiad, ystyriwch y canlynol:

- ✓ A oes gwahaniaeth sylweddol mewn oed rhwng yr anfonwr a'r derbynnydd?
- ✓ A oes unrhyw orfodi allanol neu anogaeth y tu hwnt i'r anfonwr/derbynnydd?
- ✓ A yw'r plant hyn wedi bod yn rhan o unrhyw ddigwyddiadau secstio o'r blaen?
- ✓ A oes unrhyw amgylchiadau eraill yn ymwneud â'r anfonwr neu'r derbynnydd a allai achosi pryder?
- ✓ A yw'r plentyn yn fwy agored i niwed nag arfer?
- ✓ Ystyriwch a allai'r plentyn fod mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a chwblhewch ffurflen atgyfeirio SERAF?



PEIDIWCH â chythreulio'r bobl ifanc dan sylw. Bydd yr Heddlu/Tîm Asesu Gofal Plant yn rhoi cyngor priodol ynglŷn ag unrhyw broses atgyfeirio sy'n ofynnol o ran y digwyddiad ac unrhyw gyngor/cymorth priodol dilynol ar gyfer yr ymddygiad peryglus ac unigolion sy'n agored i niwed. Efallai y bydd angen cymorth ar y dioddefwr a'r tramgwyddwr.